sir ddinbych Cyngor
denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 10 Medi 2024 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Teitl** | Penodi Is-gadeirydd y Cyngor |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y trefniadau ar gyfer penodi is-gadeirydd y Cyngor am weddill y flwyddyn ddinesig 2024/2025.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Penodir is-gadeirydd y Cyngor yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai bob blwyddyn. Ym mis Mai 2024 penododd y Cyngor y Cynghorydd Diane King i'r rôl, sydd bellach yn wag yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd King fel is-gadeirydd ym mis Gorffennaf 2024.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn penodi cynghorydd i swydd is-gadeirydd y Cyngor am weddill y flwyddyn ddinesig 2024 / 2025.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ym mis Mai 2024 penododd y Cyngor y Cynghorydd Diane King i rôl is-gadeirydd y Cyngor, gan gefnogi'r Cynghorydd Peter Scott yn ei rôl fel cadeirydd y Cyngor. Penodir is-gadeirydd y Cyngor am flwyddyn ddinesig, a daw i ben gyda chyfarfod blynyddol y Cyngor y mis Mai canlynol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

4.2. Traddodiad y Cyngor yw ethol is-gadeirydd presennol y Cyngor yn gadeirydd y Cyngor yng nghyfarfod blynyddol y flwyddyn ganlynol.

4.3. O ganlyniad i le gwag ar Gabinet Cyngor Sir Ddinbych, cynigiodd Arweinydd y Cyngor sedd ar y Cabinet i’r Cynghorydd King, ac mae’r Cynghorydd King wedi’i derbyn. Ni chaniateir i aelodau’r Cabinet ymgymryd â rolau dinesig cadeirydd neu is-gadeirydd y Cyngor, felly ymddiswyddodd y Cynghorydd King o’i rôl ddinesig ym mis Gorffennaf 2024 er mwyn dechrau ar ei dyletswyddau gyda’r Cabinet.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Nid yw rôl is-gadeirydd y Cyngor yn effeithio'n uniongyrchol ar y cynllun corfforaethol, ond mae'n rôl allweddol wrth gefnogi cyfarfodydd y Cyngor llawn a chynrychioli'r Cyngor ar ystod o ddyletswyddau dinesig.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Cyflog dinesig rôl is-gadeirydd y Cyngor yw £22,406 ar hyn o bryd. Mae'r ffigur yn cynnwys y cyflog sylfaenol a delir i bob aelod etholedig.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad o’r effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Ymgynghorwyd ag arweinwyr y grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor ynghylch enwebu eu haelodau i rôl is-gadeirydd y Cyngor.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn codi o’r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg bosibl i enw da’r Cyngor a all ddeillio o unrhyw ansicrwydd yn yr ymgeiswyr arfaethedig ar gyfer y rôl ddinesig.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac adran 4 o gyfansoddiad y Cyngor.